

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

<u>Adroddiad i'r:</u>	Cabinet
<u>Dyddiad y Cyfarfod:</u>	20 Chwefror 2024
<u>Teitl:</u>	Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25
<u>Pwrpas yr adroddiad:</u>	Rhoi adborth ar y Gyllideb ddrafft fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 23/01/24

Cefndir:

Gofynnwyd i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried adroddiad Cyllideb ddrafft 24/25 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23/01/24 a'r effaith gysylltiedig ar y Gwasanaethau priodol o fewn ei gylch gwaith.

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus gyfarfod ar Chwefror y 9^{fed} 2024 am 9:30am.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/2025 (Atodiad A). Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd sy'n wynebu'r Cyngor gyda phwysau ariannol sylweddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, y wybodaeth sy'n weddill yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf y mae wedi ei hwynebu o bell ffordd fel Cynghorydd wrth bennu'r gyllideb.

Yna rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddariad llafar byr o ran sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb.

Yna rhoddodd Aelodau'r Cabinet yn eu tro wybodaeth fanwl am Atodiadau B ac C a'r cynigion penodol o ran arbedion a ddangosir yn Atodiad D, fel a ganlyn:

D1 – Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £1.576m

Y gyllideb bresennol: £19.4m

D2 – Economi ac Adfywio

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £255k (rhan o'r £419k o ostyngiadau arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth yr Economi ac Adfywio)

Y gyllideb bresennol: £4.0m

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad E, Ffioedd a Chostau yn ymwneud â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, tudalennau 17-42 papurau'r agenda.

Yna ystyriodd yr aelodau Atodiad F ac Atodiad G.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

Argymhellion:

O ran y gwasanaethau sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, gofynnir i'r Aelodau:

1. Ystyried y canlynol:
 - a) sefyllfa gyffredinol cyllideb ddrafft 24/25.
 - b) yr elfennau perthnasol o ran y symudiadau yn y Gyllideb Refeniw.
 - c) yr elfennau perthnasol yng nghyswllt y pwysau o ran costau yn y Gyllideb Refeniw.
 - d) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch gwneud arbedion yn y Gyllideb Refeniw.
 - e) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch Ffioedd a Chostau.
 - f) cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor.
 - g) yr elfennau perthnasol o ran y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.
2. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

Rheswm dros yr argymhellion:

Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys, sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol a gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, i'r Cabinet eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 20/02/24.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion uchod ac wedi cytuno i argymhell bod y Cabinet yn:

1. Nid yw'r cynnig i gael gwared ar gasgliad ar wahân/penodedig Cynhyrchion Hylendid Amsugol yn cael ei ystyried fel rhan o'r arbedion arfaethedig;
2. Cynhelir Aseidiadau Effaith Integredig o ran y cynigion a nodwyd ar gyfer lleihau costau / arbedion;
3. Rhoddir rhagor o fanylion am y cynigion a nodwyd ar gyfer lleihau costau/arbedion e.e. cynnig y cyfleusterau cyhoeddus a'r cynnig i gyfyngu ar nifer y bagiau du a gesglir o bob aelwyd.

Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus